# Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio

Crynodeb Adolygu'r Rhaglen



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Yr Hyn a Gyflawnwyd gan Helpu Teuluoedd sy’n Gweithio | 4 |
| Allbynnau a chanlyniadau | 7 |
| Pa wahaniaeth mae Helpu Teuluoedd sy’n Gweithio wedi’i wneud i bobl a theuluoedd? | 7 |
| Beth rydyn ni wedi’i ddysgu am gyd-gynhyrchu yn y cyd-destun hwn? | 11 |
| Cyd-gynhyrchu ac amser | 11 |
| Casgliad | 12 |


**Delwedd clawr**

Flourish - Cymdeithas Tai Cymuned Caerdydd
Derbyniodd Flourish grant trwy’r rhaglen Helpu Teuluoedd sy’n Gweithio

# Cyflwyniad

Datblygodd Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol brosiect o'r enw Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio i fynd i'r afael â thlodi mewn gwaith. Daeth i fodolaeth yn dilyn ein hymchwil, a dywedodd rhanddeiliaid wrthym ni fod tlodi yn effeithio ar nifer cynyddol o deuluoedd er bod ganddyn nhw o leiaf un person yn y cartref a oedd yn gweithio. Yn 2018 dyfarnodd y rhaglen a ariannwyd gan y Loteri Genedlaethol £6.2 miliwn i 13 o brosiectau ledled Cymru. Byddai'r prosiectau yn adeiladu ar y cryfderau oedd eisoes yn bresennol o fewn teuluoedd a chymunedau, a chynnwys y gymuned ehangach a'r rhai oedd yn elwa o'u gwasanaethau i ddatblygu atebion parhaol a gwydn eu hunain i oresgyn tlodi mewn gwaith.

Wrth i'r argyfwng costau byw barhau, mae dysgu o lwyddiannau'r rhaglen hon wedi dod yn bwysicach fyth. Mae'r papur crynodeb hwn yn cyflwyno prif ganfyddiadau'r adolygiad, ond rydym yn argymell eich bod yn darllen y fersiwn lawn i weld graddau llawn yr hyn a gyflawnwyd, a'r gwahaniaeth a wnaed gan y rhaglen.

# Yr Hyn a Gyflawnwyd gan Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio

Arweiniodd amrywiaeth y sefydliadau darparu a natur wedi'i gyd-gynhyrchu'r prosiectau at weithgareddau a gwasanaethau amrywiol iawn. Y math o sefydliadau oedd yn cynnal prosiectau Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio oedd:

- cymdeithasau tai cymunedol
- elusennau sy'n gweithio gyda theuluoedd, plant ifanc, ac oedolion sy'n gofalu
- elusennau cyfiawnder cymdeithasol, cynaliadwyedd a threfnu cymunedol
- canolfannau teulu a chanolfannau datblygu cymunedol
- CBC entrepreneuriaeth gymdeithasol (Cwmni Buddiant Cymunedol).

Y prosiectau a ble roedden nhw wedi'u lleoli:

| Enw'r Prosiect | Sefydliad | Rhanbarth Gweithredu | Lleoliad | Gwasanaethau |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio'n Dda | Gweithredu yng Nghaerau a Threlái (ACE) | Y De | Caerdydd | Bwyd; hyfforddiant; gweithgareddau; arbed arian; cefnogaeth |
| Helpu Teuluoedd Sy'n Gweithio | Bron Afon | Y De | Cwmbrân | Gweithgareddau; arbed arian; bwyd |
| Ffynnu | Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (CCHA) | Y De | Caerdydd | Bwyd; cefnogaeth; gweithgareddau; arbed arian |
| Teuluoedd sy'n Gweithio yn Trefnu Newid | Citizens Cymru | Y De/ Canolbarth | Caerdydd | Hyfforddiant; ymgyrchu; arbed arian |
| Gwneud Gwaith – Gwaith I Bawb | Creu Menter C.I.C. | Y Gogledd | Conwy | Gweithgareddau; hyfforddiant; arbed arian |

| Enw’r Prosiect | Sefydliad | Rhanbarth Gweithredu | Lleoliad | Gwasanaethau |
|---|---|---|---|---|
| Prosiect Gweithio Gyda’n Gilydd, Felinfoel | Canolfan Deulu Felinfoel | Y Canolbarth | Llanelli | Gweithgareddau; hyfforddiant |
| Cryfach Gyda’n Gilydd | Foothold Cymru | Y Canolbarth | Llanelli | Gweithgareddau; arbed arian; hyfforddiant |
| Teuluoedd Sy’n Gweithio Home-Start | Home-Start Cymru | Cymru Gyfan | | Gweithgareddau; cefnogaeth; bwyd; hyfforddiant; arbed arian |
| Gweithio Gyda’n Gilydd Er Lles Llandrindod | Asiantaeth Ynni Hafren Gwy | Y Canolbarth | Llandrindod | Gweithgareddau; cefnogaeth; hyfforddiant; arbed arian |
| We Can Work it Out | South Riverside Community Development Centre (SRCDC) | Y De | Caerdydd | Hyfforddiant; cefnogaeth; bwyd; gweithgareddau; ymgyrchu |
| Prosiect Gofalwyr Teulu sy’n Gweithio Abertawe | Canolfan Gofalwyr Abertawe | Y Canolbarth | Abertawe | Gweithgareddau; cefnogaeth; hyfforddiant |
| Gweithio i’r teulu | Cymdeithas Tai United Welsh | Y De | Caerffili | Gweithgareddau; cefnogaeth; hyfforddiant; arbed arian |
| Cysylltu Cymunedau | Plant y Cymoedd | Y De | Tonypandy | Bwyd; gweithgareddau; arbed arian |




Fe wnaeth llawer o wasanaethau ganolbwyntio ar leihau costau i deuluoedd drwy sefydlu mentrau megis cyfnewid gwisg ysgol, banciau dillad a theganau, ‘llyfrgelloedd pethau’ a chaffis atgyweirio. Roedd pantri a cheginau cymunedol hefyd yn boblogaidd, gyda llawer yn dewis dosbarthu parseli bwyd yn ystod cyfnodau clo COVID-19. I gael rhagor o fanylion am y math hwn o brosiect, darllenwch yr Astudiaeth Achos Effaith a gyhoeddwyd gennym yn ddiweddar am Foothold Cymru.

Roedd rhai gweithgareddau’n cynnwys pethau na fyddai teuluoedd wedi gallu eu fforddio megis tripiau allan i’r teulu, neu weithgareddau haf gyda phecynnau gweithgaredd yn cael eu paratoi a’u dosbarthu yn ystod cyfnodau clo COVID-19 i leddfu rhywfaint o’r tensiwn o fod yn y cartref am gyfnodau hir.

Fe wnaeth prosiectau eraill ganolbwyntio ar hyfforddiant, cymwysterau, ac uwchsgilio cyfranogwyr, gyda rhai yn darparu cymorth un-i-un a gwasanaethau mentora neu eiriolaeth. Cafodd gwybodaeth, cyngor, pecynnau cymorth a ‘hybiau’ ar gyfer adnoddau eu datblygu a’u darparu hefyd, ac mewn rhai achosion nododd cyfranogwyr fod angen grwpiau cymorth gan gymheiriaid.

Roedd elfen gref o gymuned a menter yn amlwg yn y rhaglen, gyda rhai grwpiau yn trefnu digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol ar gyfer teuluoedd a busnesau lleol. **Roedd Marchnad Gymunedol Tre Biwt yn un digwyddiad o’r fath a gynhaliwyd yn ardal yr hen ddociau yng Nghaerdydd, ac a oedd yn canolbwyntio ar gyfleoedd ar gyfer twf economaidd lleol. Roedd y stondinau marchnad yn cael eu rhedeg gan werthwyr benywaidd. Gwerthwyd pob tocyn ar y diwrnod cyntaf, a daeth 500 o bobl i’r digwyddiad. Yng Ngogledd Cymru, datblygodd Creu Menter CIC ap disgownt a chynllun teyrngarwch a ddefnyddiwyd gan 272 o deuluoedd, a 60 o fusnesau lleol.**

# Allbynnau a chanlyniadau

Yn ogystal ag ymgysylltu a chefnogi miloedd o bobl, a rhoi mynediad i deuluoedd at amrywiaeth o hyfforddiant, cymorth a gweithgareddau, cynhyrchodd llawer o brosiectau allbynnau sy'n ychwanegu at eu gwaddol a'u cynaliadwyedd. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys pecynnau cymorth, cyngor ar-lein, a chanolfannau cyfeirio; ap Creu Teyrngarwch yng Nghonwy; adeilad cymunedol The Hive yn Llandrindod; a llyfr o gerddi cyfnod clo a gyhoeddwyd gan brosiect Ffynnu, Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd. Disgrifiodd adroddiad ymchwil gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt, a ysgrifennwyd gan NEF yn dilyn y cyfnod datblygu'r prosiect 'We Can Work It Out', Canolfan Datblygu Cymunedol South Riverside fel adnodd gwerthfawr ar gyfer ystyried "yr anghenion polisi sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb hiliol yng Nghymru"

**Mae'r mathau o ganlyniadau a adroddwyd arnynt gan brosiectau yn cynnwys:**

- Llai o wastraff, mwy o arbedion a mwy o hanfodion ar gael, er enghraifft:
    - Adroddodd Foothold Cymru fod 3.3 tunnell o offer a 3.5 tunnell o ddillad a theganau yn cael eu hachub o safleoedd tirlenwi/ail-ddosbarthu trwy eu gwasanaethau. Arbedodd 303 o aelwydydd £426 y teulu ar gyfartaledd y flwyddyn drwy ddefnyddio'r gwahanol lyfrgelloedd, gwneud gwelliannau i'r cartref eu hunain, a chael awgrymiadau arbed arian ymarferol.
    - Adroddodd ACE am arbediad cyfartalog y teulu o £750 y flwyddyn ar gostau bwyd; ac amcangyfrif o arbediad cyffredinol o £57,650 ar offer ac ati. Atgyweiriwyd 90 o eitemau drwy'r Caffi Atgyweirio ac roedd llawer o'r rhain yn eitemau gwerthfawr a drud.
    - Adroddodd Hafren Gwy arbedion gwerth £49,602 o ganlyniad i'r banc babanod; a £47,500 ar gyfer y gyfnewidfa gwisg ysgol.
- Rhieni'n gallu treulio amser gwerthfawr gyda'u plant a chael mynediad i gyfleoedd a phrofiadau newydd i'w teuluoedd
- Gwelliannau i iechyd meddwl a lles; teimlad o berthyn a llai o unigedd:
    - Gwell rhwydweithio cymdeithasol, cefnogaeth gan gymheiriaid, ymwybyddiaeth gymunedol a llai o unigrwydd
    - Chwalu'r rhwystrau rhwng pobl o gefndiroedd amrywiol
- Mwy o hyder, hunan-barch, a grymuso'r rhai sy'n ymwneud â chyd-gynhyrchu
    - Mwy o sgiliau, cymwysterau a mynediad at hyfforddiant a phrofiadau gwirfoddolwyr, yn arwain mewn rhai achosion at bobl yn cael swyddi gwell
    - Gwelliannau materol megis codiad cyflog ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol; biliau dŵr ac ynni llai
- Mynediad i gyngor a chefnogaeth

- Newid strwythurol a/neu eiriolaeth, er enghraifft:
    - Pobl â phrofiad byw yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau strategol megis ymgynghoriad y Bartneriaeth Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, adborth ar Ymchwiliad Profiad o Fyw Gofal Plant y Senedd
    - Rhwydweithiau a pherthnasoedd gwaith cadarnhaol yn cael eu datblygu rhwng sefydliadau cymunedol mewn ardaloedd daearyddol



**Flourish**

# Pa wahaniaeth mae Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio wedi'i wneud i bobl a theuluoedd?

Mae'r adolygiad yn ystyried effaith ansoddol y rhaglen ar dair 'lefel': yr effaith ar deuluoedd; yr effaith ar y rhai sy'n ymwneud yn ddyfnach â'r broses gyd-gynhyrchu; a'r effaith ar dirwedd ehangach.

I unigolion, mae'r effeithiau'n canolbwyntio ar fwy o wydnwch ariannol ac ansawdd bywyd, iechyd a lles, a chaffael sgiliau. Mae'r adroddiad llawn yn cynnwys astudiaethau achos a dyfyniadau sy'n dangos yr effeithiau hyn; darperir detholiad ohonynt isod:

"Mae'r pantri wedi golygu fy mod i'n gallu fforddio bwyd i fy nheulu, nid yn unig yr hanfodion sylfaenol ond eitemau moethus eraill hefyd na fyddwn i'n gallu eu fforddio fel arfer."
"Mae'r pantri yn gymaint mwy na bwyd, mae'n ymwneud â gwirio sut mae pobl, adeiladu perthynas â nhw, cael hwyl ac yn bwysicaf oll, undod. Rydyn ni i gyd yn ei chael hi'n anodd. Mae'r pantri yn lle diogel i gael bwyd ond hefyd i gael hwyl a chymryd eiliad i anghofio eich pryderon, ac anadlu".

**Sarah - gwirfoddolwr arweiniol ar gyfer y Pantri, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái**

"Galluogodd y prosiect i mi a fy mhlant gymryd rhan mewn gweithgareddau anhygoel na allwn i eu fforddio na'u cyfiawnhau fel cartref un incwm. Felly, roedd hyn yn anhygoel i mi a fy mhlant. Hefyd, roedd gweithwyr y prosiect bob amser yno i wrando a gwirio sut roedden ni fel teulu yn ystod y cyfnod clo."

**Defnyddiwr gwasanaeth Prosiect 'Gweithio Gyda'n Gilydd', Canolfan Deulu Felinfoel**

"Ymunais â grŵp HWF yn ystod un o gyfnodau gwaethaf fy mywyd. Roedd yna lawer o ansicrwydd, ac roeddwn i'n cael trafferth ymdopi, wedi'i effeithio gan fy iechyd meddwl gwael. Roedd ein grŵp yn achubiaeth i mi, yn fan diogel rheolaidd a chyson i mi ac i'r aelodau eraill. Ni oedd yn gyfrifol am y grŵp, a gyda cymorth anhygoel HomeStart roedd staff yn gallu gweithio ar ein hiechyd meddwl a'n strategaethau i gynnal yr iechyd hwnnw ac wynebu ein brwydrau dyddiol. Yn ystod fy amser yn y grŵp aeth fy nheulu trwy lawer o newidiadau ac fe wnaeth y grŵp fy helpu i ymdopi â phopeth oedd yn digwydd. Yn wir, dydw i ddim yn gwybod sut y byddwn i wedi ymdopi hebddo. Rydw i a fy nheulu mewn lle llawer gwell nawr, fyddwn i ddim wedi credu'r peth ychydig flynyddoedd yn ôl, ac rwy'n gwybod bod y grŵp hwn wedi chwarae rhan fawr yn hynny."

**Rhian, cyfranogwr ym mhrosiect HomeStart Cymru**

> “I ddechrau, roeddwn i’n nerfus am ddod yma; doeddwn i ddim yn siŵr sut y byddai pobl yn ymateb i mi yn gofyn am gael defnyddio’r gwasanaeth. Roeddwn i’n teimlo’n gartrefol o’r eiliad y cerddais i mewn. Doedd neb yn fy marnu i, ac fe adewais yn teimlo fy mod wedi bod ar daith siopa VIP gyda’r holl gefnogaeth a gefais! Rwy’n gwybod y byddaf yn edrych yn dda yn fy nillad newydd. Diolch i chi i gyd, a dweud y gwir dydych chi ddim yn gwybod faint mae hyn yn ei olygu i mi.”
>
> **Defnyddiwr gwasanaeth ‘Gweithio i’r teulu’ gan United Welsh. Sefydlodd Gwpwrdd Gwaith i ddarparu dillad addas o ansawdd rhagorol i bobl ar gyfer gwaith a chyfweliadau**

I’r rhai a ddefnyddiodd y gwasanaethau ac a oedd yn cymryd mwy o ran yn elfen gyd-gynhyrchu’r prosiectau, dywedodd llawer fod y ffaith bod eu lleisiau’n cael eu clywed wedi’u grymuso i siarad yn fwy am agweddau eraill ar eu bywyd lle na fyddent efallai wedi teimlo y gallent wneud hynny o’r blaen. Roedd cyd-gynhyrchu wedi grymuso pobl i ddatblygu eu sgiliau ac ymgymryd â heriau newydd – mae hyn i’w weld wrth i gyfranogwyr ar draws y rhaglen ddod o hyd i gyflogaeth yn ddiweddarach gyda’r sefydliadau a oedd unwaith yn eu cefnogi, ac mewn un achos, dechrau eu busnes eu hunain.

Mae’r adolygiad hefyd yn tynnu sylw at ‘effaith raeadru’ y grymuso hwn drwy gyd-gynhyrchu. Mewn un enghraifft, rhoddodd yr hyder i gyfranogwr ddod yn llywodraethwr yn ysgol gynradd ei phlentyn ac ymgyrchu am ddulliau mwy cynhwysol. Defnyddiodd Citizens Cymru gyd-gynhyrchu yn benodol fel arf ar gyfer datblygu sgiliau eu cyfranogwyr mewn arweinyddiaeth gymunedol a threfnu, fel y gallen nhw eu hunain fynd ymlaen a threfnu yn y dyfodol.

> “Rhoddodd cefnogaeth [y prosiect] lwyfan i ni drafod materion fel anghenion gofal plant rhieni sy’n gweithio a rhieni mewn addysg, a hyfforddiant i wella rhagolygon enillion a ffyrdd o fyw’n well. Mae wedi fy nysgu sut i siarad â phobl mewn sefyllfa o bŵer a sut y gallwch chi adael i’ch llais gael ei glywed. Mae wedi fy ngwneud i’n fwy hyderus fel person ac wedi gwneud i mi edrych ar faterion o bersbectif gwahanol.”
>
> **Cyfranogwr ym Mhrosiect ‘We Can Work It Out’ SRCDC**

Dywedodd llawer o brosiectau hefyd fod y rhaglen wedi eu galluogi i rwydweithio a chydweithio mwy gyda sefydliadau lleol eraill. Mae rhai yn dechrau meddwl amdanyn bgw eu hunain fel rhan o ‘system eco’ o sefydliadau lleol, yn hytrach na gweithio ar eu pen eu hunain.

# Beth rydyn ni wedi'i ddysgu am gyd-gynhyrchu yn y cyd-destun hwn?

### Y capasiti i ymgysylltu

Mae capasiti pobl i ymgysylltu â chyd-gynhyrchu yn gysylltiedig iawn â'u hamgylchiadau a'u cefndiroedd personol eu hunain. Mae'r rhai sy'n profi annhegwch cymdeithasol fel tlodi fel arfer yn agored i sawl dylanwad sy'n achosi neu'n effeithio ar eu hamgylchiadau personol. Cyfeirir at natur ryng-gysylltiedig y dylanwadau hyn fel 'rhyngtoriadol', yn enwedig mewn perthynas â'r ffactorau hynny sy'n parhau'n anfantais neu'n gwahaniaethu. Nodwyd tri chroestoriad allweddol a ddylanwadodd ar gyfranogiad, ymrwymiad a chreadigrwydd pobl o fewn cyd-gynhyrchu:

- **Lleoliad –** mewn rhannau gwledig o Gymru roedd y cyfranogwyr yn wynebu rhwystrau sylweddol wrth deithio i, ac o'r gwahanol ganolfannau rhanddeiliaid. Effeithiodd hyn ar eu gallu i gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu.
- **Dosbarth -** mae'n ymddangos bod y bobl sy'n cyd-gynhyrchu, ac sydd hefyd yn ddefnyddwyr gwasanaethau ar sbectrwm cymdeithasol eang, yn cynnwys pobl ar fudd-daliadau, gofalwyr di-dâl, teuluoedd mawr a rhieni sengl. Mae prosiectau'n ymwybodol o'r cymhlethdodau a'r brwydrau mae eu cymunedau'n eu hwynebu ac yn defnyddio cyd-gynhyrchu fel modd o rymuso a chynnig cefnogaeth.
- **Iechyd meddwl a lles –** adroddodd y prosiectau fod defnyddwyr gwasanaeth yn cael trafferth gyda materion iechyd meddwl yn ystod, ac ar ôl COVID. Daeth teimladau o arwahanrwydd cymdeithasol, unigrwydd a phryder yn rhwystrau cynyddol sylweddol i gyd-gynhyrchu. Mae'n ymddangos mai'r sefydliadau a addasodd eu gwasanaethau allgymorth ac a oedd yn hyblyg ac yn addasadwy yw'r rhai a amlygodd ymglymiad cyd-gynhyrchu cryfach ar ôl COVID.

# Cyd-gynhyrchu ac amser

Mae'n cymryd amser i wneud cyd-gynhyrchu yn dda; ac fe wnaeth y cyllid tymor hwy a gynigwyd drwy'r rhaglen ganiatáu. Wedi'r cyfan, mae defnyddwyr gwasanaeth mewn sefyllfaoedd hirdymor eu hunain: fel rhieni; fel rhiant-ofalwyr, fel gweithwyr cyflog isel. Mae angen amser hefyd i feithrin perthynas â'r bobl sy'n cael eu cefnogi, er mwyn iddynt fagu hyder a datblygu eu sgiliau. Darganfu prosiectau'n fuan nad oedd mynd at bobl gyda'r disgwyliad y byddent yn 'cyd-gynhyrchu' ar unwaith yn gweithio oherwydd bod pobl yn ymgysylltu ar lefelau gwahanol. Mae'n gymaint o 'daith' i staff y prosiect hefyd. Heb yr amser a'r hyblygrwydd i ymateb i sefyllfaoedd ac anghenion sy'n newid, ni fyddai cyd-gynhyrchu gwirioneddol yn gallu digwydd.

# Casgliad

Mae'r briff hwn wedi crynhoi canlyniadau ac effeithiau'r rhaglen Helpu Teuluoedd sy'n Gweithio, ac wedi amlygu gallu cyd-gynhyrchu fel modd o wneud gwahaniaeth cadarnhaol y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau (y mae mawr eu hangen). Mae cyd-gynhyrchu yn ddull integredig ac atblygol sydd wedi dod yn safonol ar gyfer rhaglenni thematig y Gronfa yng Nghymru oherwydd y grymuso a'r asiantaeth y mae'n eu cynnig i ddefnyddwyr gwasanaethau, yn ogystal â'r hyblygrwydd y mae'n ei roi i sefydliadau a phrosiectau. Cafodd y rhaglen effaith ar fywydau llawer o deuluoedd ledled Cymru sy'n profi tlodi mewn gwaith, a gall yr hyn a ddysgir ohono fwydo i ymatebion i'r argyfwng costau byw parhaus.

CRONFA GYMUNEDOL
COMMUNITY FUND